



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

FFURFLENNI ASESU
EFFAITH AR
GYDRADDOLDEB

RHANNAU A (Sgrinio - Ffurflenni 1-4) a
B (Prif Ganfyddiadau a Gweithredoedd – Ffurflen 5)

<u>Ar gyfer:</u>	RM01 - Strategaeth a Pholisi Rheoli Risg
<u>Dyddiad cwblhau'r ffurflen:</u>	02/09/2021



RHANNAU A: SGRINIO a B: PRIF GANFYDDIADAU A GWEITHREDOEDD

Cyflwyniad:

Bwriad y ffurflenni hyn yw eich galluogi i gofnodi, a rhoi tystiolaeth yn ymwneud â sut rydych wedi ystyried anghenion pawb (gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u staff) a allai gael eu heffeithio gan yr hyn rydych yn ei ysgrifennu neu'n ei gynnig, boed yn:

- bolisi, protocol, canllaw neu ddogfen reoli ysgrifenedig arall;
- strategaeth neu ddogfen gynllunio arall e.e. eich cynllun gweithredu blynyddol;
- unrhyw newid i'r ffordd rydym yn cyflwyno gwasanaethau e.e. adolygu gwasanaethau;
- penderfyniad sy'n ymwneud ag unrhyw un o'r uchod e.e. comisiynu gwasanaeth newydd neu ddatgomiynu gwasanaeth sy'n bodoli eisoes.

Cofiwch, caiff y term 'polisi' ei ddefnyddio mewn ystyr eang iawn i gynnwys "...pob ffordd y mae sefydliad yn gwneud ei fusnes" felly gall gynnwys unrhyw un o'r uchod neu bob un ohonynt.

Asesu Effaith

Fel rhan o'r broses o baratoi ar gyfer eich asesiad effaith, dylid ystyried y cwestiynau isod.

Dylech hefyd fod yn barod i ystyried p'un a oes effeithiau posibl o ran is-adrannau o grwpiau gwahanol â nodweddion gwarchodedig. Er enghraifft, wrth ystyried anabledd, bydd gan unigolyn â nam ar y golwg brofiad hollol wahanol i unigolyn sydd â phroblem iechyd meddwl.

Cydnabyddir fwyfwy y gall gwahaniaethu ddigwydd ar sail mwy nag un rheswm. Mae gan bobl hunaniaethau lluosog; mae gan bob un ohonom oedran, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, credoau ac ethnigrwydd; mae gan lawer o bobl grefydd a/neu amhariad hefyd. Bydd profiad menywod duon, a'r rhwystrau maent yn eu hwynebu, yn wahanol i'r rhai y mae menywod croenwyn yn eu hwynebu. Ni ellir gwahanu elfennau o'r hunaniaeth nad ydynt yn cael eu byw neu eu profi fel rhai ar wahân. Meddylwch am:-

- ✓ Sut mae'ch polisi neu'ch cynnig yn hybu cydraddoldeb i bobl sydd â nodweddion gwarchodedig (Gweler y Dyletswyddau Cydraddoldeb Cyffredinol)?



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

FFURFLENNI ASESU EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

- ✓ Beth yw'r effeithiau negyddol posibl ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig a'r rhai sy'n byw mewn cartrefi incwm isel a sut byddwch yn rhoi pethau ar waith er mwyn lleihau'r rhain neu eu dileu?
- ✓ Pa rwystrau, os o gwbl, y mae pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn eu hwynebu o ganlyniad i'ch polisi neu'ch cynnig? A oes modd lleihau neu ddileu'r rhwystrau hyn?
- ✓ Ystyriwch rannu eich EqIA yn ehangach yn BIPBC (a thu hwnt), e.e. gofynnwch i gydweithwyr ystyried effeithiau anfwriadol.
- ✓ Sut ydych/byddwch yn defnyddio'r wybodaeth rydych wedi'i chael o unrhyw ymchwil neu ffynonellau eraill i ganfod effeithiau (positif neu negyddol) posibl?

Rhan A

Ffurflen 1: Paratoi

Atebwch bob cwestiwn

1.	Beth ydych yn ei asesu h.y. beth yw teitl y ddogfen rydych yn ei hysgrifennu neu'r adolygiad gwasanaeth rydych yn ei gynnal?	RM01 - Strategaeth a Pholisi Rheoli Risg
2.	Darparwch ddisgrifiad cryno, yn cynnwys nodau ac amcanion yr hyn rydych yn ei asesu.	Nod y Bwrdd Iechyd yw darparu fframwaith strwythuredig, cynhwysfawr a rhesymol i roi cymorth i staff o ran canfod, asesu a rheoli risgiau sy'n deillio o'i weithgareddau busnes, gan fod rheoli risgiau'n effeithiol yn rhan annatod o'i ymagwedd tuag at ddysgu parhaus, gwella a llywodraethu'n dda. Mae RM01 – Strategaeth a Pholisi Rheoli Risg yn darparu fframwaith a strwythur i reoli risgiau gweithredol a strategol yn gyson, fel ysgogwyr ar gyfer penderfyniadau gwell a darparu gofal o ansawdd uchel, sy'n bersonol, sy'n canolbwyntio ar gleifion, a phrofiad gwell.
3.	Pwy sy'n gyfrifol am beth bynnag rydych yn ei asesu - h.y. pwy sydd â'r awdurdod i gytuno ar unrhyw newidiadau a ganfyddwch fel rhai angenrheidiol neu i'w cymeradwyo?	Justine Parry, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Gwybodaeth a Risg, gyda chymorth Pennaeth Rheoli Risg a Sicrwydd.
4.	A yw'r Polisi yn ymwneud â Pholisïau neu feysydd gwaith eraill, neu'n dylanwadu arnynt?	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Polisi Iechyd a Diogelwch (HS01) Arweiniad Asesu Risg (HS03) Polisi a Gweithdrefn Pryderon (PTR01 a PTR01A) Cofrestr Risg Datix - Gweithdrefn a Chanllaw Defnyddwyr (RM02) Polisïau, Gweithdrefnau ac Arweiniad Rheoli Risg Cysylltiedig
5.	Pwy yw'r Rhanddeiliaid allweddol h.y. pwy fydd eich dogfen neu'ch cynigion yn effeithio arnynt? A gytunwyd ar gynllun ymgysylltu?	Y Bwrdd a'r holl gyflogwyr.

Rhan A

Ffurflen 1: Paratoi

Atebwch bob cwestiwn

6.	Beth allai helpu neu lesteirio llwyddiant beth bynnag rydych yn ei wneud, er enghraifft cyfathrebu, hyfforddiant ac ati?	Mae'r Tîm Risg Gorfforaethol wedi lansio menter i hyfforddi 1000 o staff ar draws y Bwrdd Iechyd ynghylch dulliau rheoli risg ar gyfer 2021/22, ac mae slotiau hyfforddi amrywiol wedi'u hysbysebu ar y fewnrwyd ac mae'r holl staff wedi cael gwybod am hyn ynghyd â chael eu hannog i gadw lle. Y bwriad yw i'r holl staff (gan gynnwys Aelodau'r Bwrdd) dderbyn hyfforddiant a/neu sesiwn gloywi dros yr ychydig flynyddoedd nesaf mewn dulliau rheoli risg sy'n briodol i'w rolau a'u cyfrifoldebau, ond mae'n anodd i reolwyr gael amser i ryddhau staff o ddyletswyddau clinigol i ddilyn yr hyfforddiant. Mae cynlluniau'n cynnwys ychwanegu fersiwn byr o Hyfforddiant Rheoli Risg/Ymwybyddiaeth ym Mhecyn Ymsefydlu Corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer dechreuwyr newydd.
7.	Meddyliwch am yr agweddau positif ar eich polisi sy'n helpu i hybu a gwella cydraddoldeb trwy leihau anghydraddoldeb neu anfanteision gan eu cofnodi.	Mae'r Strategaeth a'r Polisi yn disgrifio ymagwedd y Bwrdd Iechyd tuag at reoli risg fel dull rhagweithiol, integredig, menter gyfan ac sydd wedi'i lywio gan ddiwylliant agored a thryloyw lle mae staff yn teimlo eu bod wedi'u grymuso a'u bod yn hyderus i dynnu sylw at risgiau ac i'w trafod heb ofn, ymgysylltu â staff ar draws y sefydliad cyfan i ystyried rheoli risg fel offeryn i wneud penderfyniadau gwell ac i gyflawni amcanion Cynllun Gweithredol Blynnyddol 2021-22. Mae'r Strategaeth a'r Polisi yn amlinellu Fframwaith Archwaeth Risg y Bwrdd Iechyd, gydag ymagwedd rhagweithiol, cynhwysol, a menter gyfan tuag at reoli risg.

Rhan A

Ffurflen 2: Cofnod o Effeithiau posibl - nodweddion gwarchodedig a grwpiau eraill

Atebwch bob cwestiwn

Cwblhewch yr adran nesaf i ddangos sut y gallai'r polisi / cynnig hwn gael effaith (boed yn bositif neu'n negyddol) ar y grwpiau gwarchodedig a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n bwysig nodi unrhyw gyfleoedd rydych wedi'u rhestru a allai wella neu hybu cyfle cyfartal. Mae hyn yn cynnwys canfod beth gallwn ei wneud i ddileu rhwystrau a gwella cyfranogiad i bobl sydd wedi'u tangynrychioli neu sydd o dan anfantais anghymesur.

Nid yw diffyg tystiolaeth yn rheswm dros *beidio ag asesu effeithiau cydraddoldeb*. Amlygwch unrhyw fylchau mewn tystiolaeth rydych wedi'u canfod ac esboniwch sut/os rydych yn bwriadu llenwi'r bylchau hyn.

Cofiwch am ofyn y canlynol i chi'ch hun: Os byddwn yn gwneud yr hyn rydym yn cynnig ei wneud, yn y ffordd rydym yn cynnig ei wneud, a fydd hyn yn effeithio'n wahanol ar bobl sy'n perthyn i un neu fwy o'r grwpiau canlynol, o gymharu â phobl nad ydynt yn perthyn i'r grwpiau hyn? Er enghraifft, a fyddant yn profi canlyniadau gwahanol, yn syml am y rheswm eu bod yn perthyn i'r grŵp hwnnw/y grwpiau hynny. Ac os felly, a fydd unrhyw ganlyniad gwahanol yn golygu eu bod o dan anfantais?

Y math o wybodaeth/tystiolaeth a allai eich helpu i benderfynu p'un a oes effaith ar grwpiau penodol, ac os felly, p'un a yw'n debygol o fod yn effaith bositif neu negyddol, gallai gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y canlynol:-

- data poblogaeth
- gwybodaeth o EqIAs a gwblhawyd mewn sefydliadau eraill
- data staff a defnyddwyr gwasanaeth, fel bo'n berthnasol
- asesiadau anghenion
- canfyddiadau ymgysylltu a chynnwys a sut mae rhanddeiliaid wedi cymryd rhan yn y camau datblygu
- ymchwil ac adroddiadau eraill e.e. y Comisiwn ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- pryderon a digwyddiadau
- adborth ar brofiad cleifion

Rhan A

Ffurflen 2: Cofnod o Effeithiau posibl - nodweddion gwarchodedig a grwpiau eraill

Atebwch bob cwestiwn

- canllawiau arfer da
- gwybodaeth am gyfranogwyr (chi a'ch cydweithwyr)

Nodwedd neu grŵp gwarchodedig	A fydd yr hyn sy'n cael ei gynnig yn effeithio ar bobl ym mhob un o'r grwpiau nodweddion gwarchodedig hyn? Os felly, a yw'n bositif neu'n negyddol? (ticiwch fel bo'n briodol isod) <i>i gael cyfarwyddyd pellach ar sut i gwblhau'r adran hon cliciwch yma fideo hyfforddiant tud. 13-18)</i>	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth sydd wedi'ch arwain i benderfynu ar hyn) Man cychwyn da yw cyhoeddiad EHRC: "A yw Cymru'n Decach (2018)?" Gallwch hefyd fynd i'w gwefan yma	Sut byddwch yn lleihau unrhyw effeithiau negyddol rydych wedi'u canfod neu'n eu dileu?
<i>Arweiniad ar Gwblhau</i> <i>Yn y golofn ar y chwith - ac ar gyfer pob nodwedd ac adran yma ac islaw - aseswch sut y gallai eich polisi neu'ch cynnig effeithio ar bobl yn y grŵp gwarchodedig hwn, yn eich tyb chi, gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael i chi a barn ac arbenigedd y rhai sy'n cymryd rhan yn yr asesiad. Eich barn chi yw hon yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael i chi, gan gynnwys perthnasedd a chymesuredd. Os gwnaethoch roi ateb cadarnhaol, mae angen i chi nodi p'un a fydd yr effaith bosibl yn bositif neu'n negyddol. Sylwer bod y ddau'n bosibl e.e. gwasanaeth yn troi'n clinigau rhithiol: gallai anabledd (yn yr adran isod) o ran problemau symudedd fod yn bositif, ond ar gyfer problemau synhwyraidd, effaith negyddol, o bosibl. Byddai angen i'r ddau gael eu hystyried a'u cofnodi.</i> <i>Dylai'r wybodaeth sy'n helpu i lywio'r asesiad gael ei rhestru yn y golofn hon. Rhowch dystiolaeth ar gyfer ateb.</i>			

Rhan A

Ffurflen 2: Cofnod o Effeithiau posibl - nodweddion gwarchodedig a grwpiau eraill

Atebwch bob cwestiwn

Awgrym/cyngor: peidiwch â dweud: "heb fod yn berthnasol", "dim effaith" neu "ni waeth am hynny..." Os ydych wedi nodi 'dim effaith', esboniwch yn glir sut daethoch i'r penderfyniad hwn. D.S: Ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig, sicrhewch eich bod yn ystyried problemau'n ymwneud â chyfrinachedd, urddas a pharch. Ar gyfer y diffiniadau o bob nodwedd, cliciwch yma						
✓	X	(+ve)	(-ve)			
Oedran	X	+ve		Nid yw'r Strategaeth a'r Polisi'n gwahaniaethu - mae'n amlinellu ymagwedd gynhwysol a menter gyfan tuag at reoli risg.		
Anabledd	X	+ve		Er nad yw'r Strategaeth a'r Polisi yn gwahaniaethu, mae'r asesiad wedi tynnu sylw at yr angen am argaeledd o ran fformat, ynghyd â'r holl ddogfennaeth arall yn y Bwrdd Iechyd, er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw anableddau nam ar y golwg, gan gynnwys dallineb llwyr, a hefyd, o bosibl, ddyslecsia. Mae'r Strategaeth a'r Polisi yn datgan ar gyfer y rhai ag anableddau nam ar y golwg, bod trawsgrifiadau o ddogfennau a chymorth ar gael. Gan fod dallineb lliw wedi'i nodi fel anhawster posibl o ran deall unrhyw gyfraddau RAG, caiff llythyren (R, A, G) ei hychwanegu at y blwch neu'r golofn. O ran dyslecsia, mae nifer o adnoddau ar gael gan y		

Rhan A

Ffurflen 2: Cofnod o Effeithiau posibl - nodweddion gwarchodedig a grwpiau eraill

Atebwch bob cwestiwn

						Bwrdd Iechyd i roi cymorth i staff fel cam lliniaru.
Ailbennu Rhywedd		X	+ve		Nid yw'r Strategaeth a'r Polisi'n gwahaniaethu - mae'n amlinellu ymagwedd gynhwysol a menter gyfan tuag at reoli risg.	
Beichiogrwydd a mamolaeth		X	+ve		Nid yw'r Strategaeth a'r Polisi'n gwahaniaethu - mae'n amlinellu ymagwedd gynhwysol a menter gyfan tuag at reoli risg.	
Hil		X	+ve		Nid yw'r Strategaeth a'r Polisi'n gwahaniaethu - mae'n amlinellu ymagwedd gynhwysol a menter gyfan tuag at reoli risg.	
Crefydd, cred a diffyg cred		X	+ve		Nid yw'r Strategaeth a'r Polisi'n gwahaniaethu - mae'n amlinellu ymagwedd gynhwysol a menter gyfan tuag at reoli risg.	
Rhyw		X	+ve		Nid yw'r Strategaeth a'r Polisi'n gwahaniaethu - mae'n amlinellu ymagwedd gynhwysol a menter gyfan tuag at reoli risg.	
Cyfeiriadedd rhywiol		X	+ve		Nid yw'r Strategaeth a'r Polisi'n gwahaniaethu - mae'n amlinellu ymagwedd gynhwysol a menter gyfan at reoli risg.	

Rhan A

Ffurflen 2: Cofnod o Effeithiau posibl - nodweddion gwarchodedig a grwpiau eraill

Atebwch bob cwestiwn

Priodas a phartneriaeth sifil (Statws priodasol)		X	+ve		Nid yw'r Strategaeth a'r Polisi'n gwahaniaethu - mae'n amlinellu ymagwedd gynhwysol a menter gyfan tuag at reoli risg.	
Anfantais Economaidd-gymdeithasol		X	+ve		Nid yw'r Strategaeth a'r Polisi'n gwahaniaethu - mae'n amlinellu ymagwedd gynhwysol a menter gyfan tuag at reoli risg.	

Rhan A

Ffurflen 3: Cofnod o Effeithiau Posibl - Hawliau Dynol a'r Gymraeg

Atebwch bob cwestiwn

Hawliau Dynol:

A ydych o'r farn y bydd y polisi hwn yn cael effaith bositif neu negyddol ar hawliau dynol pobl? I gael rhagor o wybodaeth am Hawliau Dynol, gweler ein tudalennau mewnwyd: <http://howis.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/42166> ac i gael gwybodaeth ychwanegol, Teclyn Olrhain Cytuniad Hawliau Dynol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) <https://humanrightstracker.com>.

Yr Erthyglau (Hawliau) a allai fod yn arbennig o berthnasol i'w hystyried yw:-

- *Erthygl 2* *Hawl i fywyd*
- *Erthygl 3* *Gwahardd triniaeth greulon neu ddiraddiol*
- *Erthygl 5* *Hawl i ryddid a diogelwch*
- *Erthygl 8* *Hawl i barch o ran bywyd teuluol a phreifat*
- *Erthygl 9* *Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd*

Ystyriwch hefyd y Confensiynau canlynol gan y Cenhedloedd Unedig:

[Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn](#)

[Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau pobl gydag anableddau.](#)

[Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Waredu Pob Ffurf ar Wahaniaethu yn erbyn Menywod](#)

Rhan A

Ffurflen 3: Cofnod o Effeithiau Posibl - Hawliau Dynol a'r Gymraeg

Atebwch bob cwestiwn

A fydd yr hyn sy'n cael ei gynnig yn effeithio ar Hawliau Dynol pobl? Os felly, a yw'n bositif neu'n negyddol? (ticiwch fel bo'n briodol isod)				Pa effaith allai fod ar Adnoddau Dynol, yn eich barn chi	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth sydd wedi'ch arwain i benderfynu ar hyn)	Sut byddwch yn lleihau unrhyw effeithiau negyddol rydych wedi'u canfod neu'n eu dileu?
✓	X	(+ve)	(-ve)			
	X	+ve			Nid yw'r Strategaeth a'r Polisi'n effeithio ar Hawliau Dynol pobl - mae'n amlinellu ymagwedd gynhwysol a menter gyfan tuag at reoli risg.	

Rhan A

Ffurflen 3: Cofnod o Effeithiau Posibl - Hawliau Dynol a'r Gymraeg

Atebwch bob cwestiwn

Y Gymraeg:

Mae dwy ystyriaeth allweddol i'w gwneud wrth ddatblygu polisi, prosiect, rhaglen neu wasanaeth er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol a/neu effaith bositif neu effaith fwy positif ar:

Y Gymraeg	A fydd yr hyn sy'n cael ei gynnig yn effeithio ar bobl? Os felly, a yw'n bositif neu'n negyddol? (ticiwch fel bo'n briodol isod)				Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth sydd wedi'ch arwain i benderfynu ar hyn)	Sut byddwch yn lleihau unrhyw effeithiau negyddol rydych wedi'u canfod neu'n eu dileu?
	✓	X	(+ve)	(-ve)		
Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg		X	+ve		Er nad yw'r Strategaeth a'r Polisi'n gwahaniaethu, yn yr un modd â holl ddogfennaeth y Bwrdd Iechyd, mae'r asesiad wedi tynnu sylw at yr angen i fformat Cymraeg fod ar gael.	Mae Gwasanaeth Cyfieithu'r Bwrdd Iechyd ar gael i'r rhai a fyddai'n hoffi cael fersiwn Gymraeg o'r Strategaeth a'r Polisi.
Trin y Gymraeg heb fod yn llai ffafriol na'r Saesneg		X	+ve		Er nad yw'r Strategaeth a'r Polisi'n gwahaniaethu, yn yr un modd â holl ddogfennaeth y Bwrdd Iechyd, mae'r asesiad wedi tynnu sylw at yr angen i fformat Cymraeg fod ar gael.	Mae Gwasanaeth Cyfieithu'r Bwrdd Iechyd ar gael i'r rhai a fyddai'n hoffi cael fersiwn Gymraeg o'r Strategaeth a'r Polisi.

Atebwch bob cwestiwn

Cofnodwch yma fanylion am unrhyw ymgysylltu ac ymgynghori a gafwyd. Gallai hyn fod gyda chydweithwyr yn y gweithle neu gynrychiolwyr undebau llafur, neu gallai fod gyda rhanddeiliaid neu aelodau eraill o'r gymuned gan gynnwys grwpiau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchodedig. Efallai y byddant wedi helpu i ddatblygu eich polisi / cynnig, neu wedi helpu i ganfod ffyrdd o leihau unrhyw effeithiau negyddol neu eu dileu.

Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i ymgysylltu â phobl sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth ystyried cynigion yn ymwneud â newid gwasanaethau a allai effeithio ar bobl sy'n agored i niwed a/neu bobl o dan anfantais.

Pa gamau a ydych wedi'u cymryd i ymgysylltu ac ymgynghori â phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a sut ydych wedi gwneud hyn? Ystyriwch ddulliau ymgysylltu a chyfranogi. <i>i gael cyfarwyddyd pellach ar sut i gwblhau'r adran hon cliciwch yma fideo hyfforddiant tud. 13-18</i>	Roedd y Strategaeth a'r Polisi yn destun ymgynghori, cymeradwyo a dilysu gan y Bwrdd Iechyd, yn cynnwys y rhai sy'n gyfrifol am Asesiadau o Effaith Cydraddoldeb.
A oes unrhyw themâu wedi dod i'r amlwg? Disgrifiwch nhw yma.	Gwnaeth un o aelodau'r Bwrdd argymhell ystyried "staff a allai fod yn ddall i liwiau (cyfraddau RAG) ac unrhyw un â dyslecsia".
Os oes ateb cadarnhaol i'r uchod, sut mae eu safbwyntiau wedi dylanwadu ar eich gwaith/arwain eich polisi/cynnig, neu wedi newid eich argymhellion?	Mae'r Strategaeth a'r Polisi yn datgan ar gyfer y rhai ag anabledau nam ar y golwg, bod trawsgrifiadau o ddogfennau a chymorth ar gael. Gan fod dallineb lliw wedi'i nodi fel anhawster posibl o ran deall unrhyw gyfraddau RAG, caiff llythyren (R, A, G) ei hychwanegu at y blwch neu'r golofn. O ran dyslecsia, mae nifer o adnoddau ar gael gan y Bwrdd Iechyd i roi cymorth i staff fel cam lliniaru.

I gael rhagor o wybodaeth a chymorth, cysylltwch â'r Tîm Ymgysylltu Corfforaethol - gweler eu tudalen fewnrwyd ar:-

<http://howis.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/44085>

Rhan B Ffurflen 5: Crynodeb o'r Prif Ganfyddiadau a Gweithredoedd

Atebwch bob cwestiwn

1. Beth sydd wedi'i asesu? (Copïo o Ffurflen 1) <i>i gael cyfarwyddyd pellach ar sut i gwblhau'r adran hon cliciwch yma fideo hyfforddiant tud. 13-18</i>	RM01 - Strategaeth a Pholisi Rheoli Risg
2. Nodau ac Amcanion Cryno: (Copïo o Ffurflen 1)	Nod y Bwrdd Iechyd yw darparu fframwaith strwythuredig, cynhwysfawr a rhesymol i roi cymorth i staff o ran canfod, asesu a rheoli risgiau sy'n deillio o'i weithgareddau busnes, gan fod rheoli risgiau'n effeithiol yn rhan annatod o'i ymagwedd tuag at ddysgu parhaus, gwella a llywodraethu'n dda. Mae RM01 – Strategaeth a Pholisi Rheoli Risg yn darparu fframwaith a strwythur i reoli risgiau gweithredol a strategol yn gyson, fel ysgogwyr ar gyfer penderfyniadau gwell a darparu gofal o ansawdd uchel, sy'n bersonol, sy'n canolbwyntio ar gleifion, a phrofiad gwell.

O ganfyddiadau eich asesiad (Ffurflenni 2 a 3):

3a. A allai eich polisi neu'ch cynnig effeithio'n negyddol ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig? Arweiniad: Mae hyn fel y nodwyd ar ffurflen 2 a 3	Gallai ☐	Na allai ☒
---	--	---

Rhan B

Ffurflen 5: Crynodeb o'r Prif Ganfyddiadau a Gweithredoedd

Atebwch bob cwestiwn

3b. A allai effaith eich polisi neu'ch cynnig fod yn wahaniaethol o dan ddeddfwriaeth gydraddoldeb? Arweiniad: Os ydych wedi cwblhau'r ffurflen hon yn gywir ac wedi lleihau neu liniaru unrhyw rwystrau, dylech allu ateb 'Na allai' i'r cwestiwn hwn.	Gallai ☐	Na allai ☒
3c. A yw'ch polisi neu'ch cynnig o arwyddocâd mawr? Er enghraifft, a yw'n golygu newidiadau ar draws y boblogaeth gyfan neu'r Bwrdd Iechyd, neu niferoedd bach mewn un ardal benodol yn unig? Gallai arwyddocad mawr olygu: - Bod angen i'r polisi gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Iechyd neu is-bwyllgor - Mae'r polisi hwn yn cynnwys defnyddio adnoddau ychwanegol neu waredu adnoddau. - A yw'n ymwneud â gwasanaeth newydd neu gau gwasanaeth? - A oes effaith bosibl ar swyddi? - A yw'r penderfyniad yn ymwneud â Gogledd Cymru gyfan - Penderfyniadau o natur strategol: Yn gyffredinol, bydd penderfyniadau strategol yn rhai sy'n effeithio ar sut mae'r corff cyhoeddus perthnasol yn cyflawni ei bwrpas statudol bwriadedig (ei swyddogaethau o ran y gyfres o bwerau a dyletswyddau y mae'n eu defnyddio i gyflawni ei gylch gwaith) dros gyfnod sylweddol o amser ac ni fydd yn cynnwys penderfyniadau arferol 'o ddydd i ddydd'. ARWEINIAD: Os ydych wedi canfod bod eich polisi o arwyddocad mawr ac nad ydych wedi gwaredu'r holl effeithiau negyddol a ganfuwyd yn llawn, efallai y byddwch	Gallai ☒	Na allai ☐

Rhan B

Ffurflen 5: Crynodeb o'r Prif Ganfyddiadau a Gweithredoedd

Atebwch bob cwestiwn

yn awyddus i ystyried anfon eich EqlA at y Grŵp Craffu ar Asesu Effaith Cydraddoldeb trwy'r Tîm Cydraddoldeb/				
4. A wnaeth canfyddiadau eich asesiad ar Ffurflenni 2 a 3, ynghyd â'ch atebion i'r 3 chwestiwn uchod ddangos bod angen i chi fynd ymlaen at Asesiad Effaith Llawn?	Do ☐	Naddo ☒		
5. Os ydych wedi ateb 'naddo' uchod, a oes unrhyw broblemau i fynd i'r afael â nhw e.e. lleihau unrhyw fân effaith negyddol a ganfuwyd?	Do ☐	Naddo ☒		
	Mae'r Strategaeth a'r Polisi yn datgan ar gyfer y rhai ag anableddau nam ar y golwg, bod trawsgrifiadau o ddogfennau a chymorth ar gael. Gan fod dallineb lliw wedi'i nodi fel anhawster posibl o ran deall unrhyw gyfraddau RAG, caiff llythyren (R, A, G) ei hychwanegu at y blwch neu'r golofn. O ran dyslecsia, mae nifer o adnoddau ar gael gan y Bwrdd Iechyd i roi cymorth i staff fel cam lliniaru. Mae Gwasanaeth Cyfieithu'r Bwrdd Iechyd ar gael i'r rhai a fyddai'n hoffi cael fersiwn Gymraeg o'r Strategaeth a'r Polisi.			
6. A oes trefniadau monitro ar waith lle fel y gallwch fesur beth sy'n digwydd	Oes ☐	Nac oes ☒		

Rhan B

Ffurflen 5: Crynodeb o'r Prif Ganfyddiadau a Gweithredoedd

Atebwch bob cwestiwn

mewn gwirionedd ar ôl i chi roi eich polisi neu'ch cynnig ar waith?	Sut mae'n cael ei fonitro?	Bydd y Bwrdd Iechyd yn cynnal Hunanasesiadau Rheoli Risg rheolaidd trwy'r Grŵp Rheoli Risg, i fesur effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg ar draws ei wasanaethau.
	Pwy sy'n gyfrifol?	Y Tîm Rheoli Risg a'r Grŵp Rheoli Risg.
	Pa wybodaeth sy'n cael ei defnyddio?	Archwiliadau mewnol blynyddol, Archwiliadau Ciplun a/neu wiriad iechyd blynyddol o ddiwylliant rheoli risg, gan ddefnyddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs).
	Pa bryd fydd yr EqIA yn cael ei adolygu?	Gorffennaf 2022.

7. I ble caiff eich polisi neu'ch cynnig ei anfon i'w gymeradwyo?	Pwyllgor Archwilio.
---	---------------------

Rhan B

Ffurflen 5: Crynodeb o'r Prif Ganfyddiadau a Gweithredoedd

Atebwch bob cwestiwn

8. Enwch yr holl bartïon fu ynghlwm wrth gynnal yr Asesiad Effaith o Gydraddoldeb - sylwch y dylai EqIA gael ei gynnal fel gweithgaredd grŵp Uwch aelod o staff i'w gymeradwyo cyn cael ei gymeradwyo gan y pwyllgor:	Enw	Teitl/Rôl
	Justine Parry	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Gwybodaeth a Risg, gyda chymorth Pennaeth Rheoli Risg a Sicrwydd a Rheolwr Prosiect Risg Dros Dro
	Justine Parry	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Gwybodaeth a Risg
Sylwer: Mae'r Cynllun Gweithredu isod yn ffurfio rhan annatod o'r Adroddiad Canlyniad hwn		

Cynllun Gweithredu

Mae'r templed hwn yn manylu ar unrhyw weithred sydd wedi'i chynllunio yn dilyn cwblhau'r EqIA yn cynnwys gweithredoedd sydd wedi'u hanelu at leihau neu waredu effeithiau negyddol posibl neu wirioneddol sydd wedi'u canfod.

Rhan B

Ffurflen 5: Crynodeb o'r Prif Ganfyddiadau a Gweithredoedd

Atebwch bob cwestiwn

	Gweithredoedd Arfaethedig Cofnodwch yr holl gamau gweithredu i gael eu cymryd o ganlyniad i'r asesiad o effaith yma. Byddwch yn benodol a defnyddiwch gamau CAMPUS. Sicrhewch fod y rhain yn cael eu hymgorffori i'r polisi, strategaeth, prosiect neu'r newid gwasanaeth.	Pwy sy'n gyfrifol am y weithred hon?	Erbyn pryd fydd hyn yn cael ei wneud?
1. Os yw'r asesiad yn dangos unrhyw effaith negyddol bosibl arwyddocaol fel na allwch barhau, rhowch resymau ac unrhyw weithred(weithredoedd) amgen y cytunwyd arnynt:	Nid oes unrhyw effeithiau negyddol posibl wedi'u canfod, felly ni fydd angen unrhyw gamau pellach.		
2. Pa newidiadau ydych yn bwriadu eu gwneud i'ch polisi neu'ch cynnig o ganlyniad i'r EqIA?	Nid oes angen newidiadau.		
3a. Lle bo effeithiau negyddol ar grwpiau penodol wedi'u canfod, pa gamau gweithredu a ydych yn eu cymryd neu sydd wedi'u cynnig i leihau'r effeithiau hyn? A yw'r rhain eisoes ar waith?	Eisoes ar waith. Mae'r Strategaeth a'r Polisi yn datgan ar gyfer y rhai ag anableddau nam ar y golwg, bod trawsgrifiadau o ddogfennau a chymorth ar gael. O ran dyslecsia, mae nifer o adnoddau ar gael gan y Bwrdd Iechyd i roi cymorth i staff fel cam lliniaru. Mae Gwasanaeth Cyfieithu'r Bwrdd		

Rhan B

Ffurflen 5: Crynodeb o'r Prif Ganfyddiadau a Gweithredoedd

Atebwch bob cwestiwn

	Gweithredoedd Arfaethedig	Pwy sy'n gyfrifol am y weithred hon?	Erbyn pryd fydd hyn yn cael ei wneud?
	Cofnodwch yr holl gamau gweithredu i gael eu cymryd o ganlyniad i'r asesiad o effaith yma. Byddwch yn benodol a defnyddiwch gamau CAMPUS. Sicrhewch fod y rhain yn cael eu hymgorffori i'r polisi, strategaeth, prosiect neu'r newid gwasanaeth.		
	Iechyd ar gael i'r rhai a fyddai'n hoffi cael fersiwn Gymraeg o'r Strategaeth a'r Polisi.		
3b. Lle bo effeithiau negyddol ar grwpiau penodol wedi'u canfod, a'ch bod yn mynd ymlaen heb eu lleihau, disgrifiwch yma pam eich bod yn teimlo bod hyn yn gyfiawn.	Gan fod dallineb lliw wedi'i nodi fel anhawster posibl o ran deall unrhyw gyfraddau RAG, caiff llythyren (R, A, G) ei hychwanegu at y blwch neu'r golofn ar gyfer yr holl ddeunyddiau rheoli risg cysylltiedig wrth i'r rhain gael eu diweddarau, ar gyfer y dyfodol.	Pennaeth Rheoli Risg a Sicrwydd.	Wrth i ddogfennau cysylltiedig gael eu diweddarau.
4. Darparwch fanylion am unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd neu sydd yn yr arfaeth i hybu cyfle cyfartal o ganlyniad i'r asesiad hwn.	Gan fod dallineb lliw wedi'i nodi fel anhawster posibl o ran deall unrhyw gyfraddau RAG, caiff llythyren (R, A, G) ei hychwanegu at y blwch neu'r golofn ar gyfer yr holl ddeunyddiau rheoli risg cysylltiedig wrth i'r rhain gael eu diweddarau, ar gyfer y dyfodol.	Pennaeth Rheoli Risg a Sicrwydd.	Wrth i ddogfennau cysylltiedig gael eu diweddarau.